Swansea University
Prifysgol Abertawe

**<u>Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Uwch-swyddog Prosiect - Wolfson |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £38,205 i £44,263 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 21 awr yr wythnos (60% CALl) |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Dyma swydd am gyfnod penodol tan fis Mawrth 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Disgwylir i'r Uwch-swyddog Prosiect arwain tîm prosiect bach gyda lefel uchel o gyfarwyddyd gan gyfarwyddwr prosiect neu uwch-reolwr yn y Brifysgol. Mae'r Uwch-swyddog Prosiect yn gyfrifol am gymhwyso'r canlynol yn annibynnol mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn rhy gymhleth:<br><br>1. Hyrwyddo lles ehangach y cyhoedd ym mhob gweithred, gan ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol yn foesol, yn gyfreithiol ac yn gymdeithasol wrth ymdrin â rhanddeiliaid ac aelodau o dîm y prosiect a'r Brifysgol.<br>2. Nodi anghytundebau rhwng unigolion a/neu grwpiau buddiant sy'n rhan o'r prosiect, mynd i'r afael â'r rhain a'u datrys.<br>3. Canfod y ffordd orau o fodloni gofynion yng nghyd-destun amcanion a chyfyngiadau'r prosiect h.y. datblygu atebion<br>4. Paratoi a chynnal amserlenni ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau'r prosiect, gan ystyried dibyniaethau a gofynion am adnoddau<br>5. Datblygu cynlluniau dyrannu adnoddau'r prosiect, eu rhoi ar waith a'u diweddaru, gan ystyried argaeledd a threfniadau amser.<br>6. Llunio cyllideb y prosiect a chytuno arni, a rheoli rhagolygon a gwir gostau yn erbyn y gyllideb hon<br>7. Nodi a monitro risgiau i'r prosiect, cynllunio ymatebion a'u rhoi ar waith ac ymateb i faterion eraill sy'n effeithio ar y prosiect.<br>8. Datblygu, cynnal a defnyddio prosesau rheoli ansawdd ar gyfer gweithgareddau ac allbynnau'r prosiect<br>9. Cydgrynhoi a dogfennu elfennau sylfaenol y prosiect (cwmpas, amserlen, anghenion o ran adnoddau, cyllidebau, risgiau, cyfleoedd, problemau ac anghenion o ran ansawdd)<br>10. Rheoli rhanddeiliaid y prosiect, gan ystyried lefelau eu dylanwad a'u diddordebau penodol<br>11. Sefydlu a rheoli adolygiadau ar adegau priodol yn ystod y prosiect, a fydd yn llywio llywodraethu'r prosiect drwy werthuso cynnydd. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 12. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>13. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>14. Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>15. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>16. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae holl feysydd y Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Craidd – [http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/safon-fyd-eang/gwerthoedd/gwasanaethau-proffesiynol/](http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/safon-fyd-eang/gwerthoedd/gwasanaethau-proffesiynol/) – a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rôl o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth |

| | |
|---|---|
| | hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.Yn ogystal, byddwch chi'n gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth. Ein Gwerthoedd:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Rheoli Prosiectau** | **Rheoli Prosiectau ym Mhrifysgol Abertawe**<br>**Gweithio gyda'r Gymdeithas Rheoli Prosiectau (APM)**<br>Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad ag Achrediad yr APM, ac mae'n ystyried mai Corff Gwybodaeth yr APM a Fframwaith Cymhwysedd yr APM yw'r prif bwynt cyfeirio ar gyfer ei gweithgareddau rheoli prosiectau.<br><br>Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolios Strategol yn gyfrifol am wella proffesiynoldeb rheoli prosiectau a newid ar draws y Brifysgol. Mae cyngor, cymorth, a deunydd dysgu a datblygu sy'n ymwneud â rheoli prosiectau a newid ar gael drwy'r tîm hwn.<br><br>Disgwylir i bob aelod staff rheoli prosiectau ddod yn aelod o gorff proffesiynol rheoli prosiectau, yn ddelfrydol yr APM. Gweler https://www.apm.org.uk/membership/ am ganllawiau ar aelodaeth unigol. |
| **Manyleb Person** | **Gwerthoedd:**<br><br>**1.** Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>**2.** Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>**3.** Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br><br>**4.** Wedi'ch addysgu hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfwerth.<br>**5.** Parodrwydd i weithio tuag at gymhwyster y Gymdeithas Rheoli Prosiectau (APM)<br>**6.** Parodrwydd i weithio tuag at aelodaeth o'r APM.<br><br>**Profiad:**<br><br>**7.** Profiad o reoli a monitro cyllid prosiect i sicrhau y caiff y prosiect ei gyflawni yn unol â'r gyllideb a'i fod yn cyflawni gwerth am arian.<br>**8.** Profiad o lunio cynllun prosiect manwl ar gyfer prosiect nad yw'n rhy gymhleth ac yna reoli a monitro'r cynllun i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus i gyflawni'r targedau gofynnol o ran ansawdd, amserlenni a chyllideb.<br>**9.** Profiad o nodi risgiau a chynllunio, gweithredu a monitro ymatebion i'r risgiau hynny ar gyfer prosiect cymhleth<br>**10.** Profiad o reoli a dylanwadu ar randdeiliaid ar brosiect nad yw'n rhy gymhleth |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>**11.** Sgiliau trefnu rhagorol, y gallu i reoli amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd a'u rheoli a threfnu a blaenoriaethu llwyth gwaith personol a llwythi gwaith eraill er mwyn bodloni cerrig milltir prosiect.<br>**12.** Sgiliau cyfathrebu da gyda thystiolaeth amlwg o sgiliau cyflwyno effeithiol, sgiliau llunio adroddiadau a'r gallu i siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid.<br>**13.** Gwybodaeth am raglen gynllunio ar gyfer rheoli prosiectau, megis MS Project<br>**14.** Gwybodaeth am reolau cyllid a phrosesau recriwtio a dethol ar gyfer staff<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.<br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>**15.** Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch ac o ymdrin â rhanddeiliaid mewn amgylchedd sefydliad addysg uwch<br>**16.** Parodrwydd i deithio i gwrdd â chleientiaid a rhanddeiliaid eraill mewn lleoliadau gwahanol yn y DU<br>**17.** Profiad o lunio cynigion a chyflwyno ceisiadau i gyrff cyllido<br>**18.** Profiad o lunio ceisiadau am gyllid ar AMS<br>**19.** Profiad o weithredu o fewn strwythurau llywodraethu ar gyfer prosiect<br>**20.** Gwybodaeth am reolau, rheolyddion a chyfathrebiadau ynghylch cyllid Ewropeaidd<br>**21.** Profiad o feddalwedd ABW a gwybodaeth amdani<br>**22.** Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad gyrfa personol a phroffesiynol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Dara Almeida Medina dara.almeidamedina@abertawe.ac.uk |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru Diversity Champion

HR Excellence in Research